

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Trefniadau Asesu. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS/MS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

11 Ionawr 2022

## Cynnwys

<b>RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol</b>	<b>3</b>
<b>1. DISGRIFIAD</b>	<b>3</b>
<b>2. MATERION O DDIDDORDEB ARBENNIG I'R PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD</b>	<b>3</b>
<b>3 Y CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL</b>	<b>3</b>
<i>Y WEITHDREFN</i>	<i>3</i>
<b>4 DIBEN Y DDEDDFWRIAETH A'R EFFAITH Y BWRIEDIR IDDI EI CHAEL</b>	<b>4</b>
<i>CYCHWYN</i>	<i>5</i>
<i>ASESU PARHAUS DRWY GYDOL Y FLWYDDYN YSGOL</i>	<i>5</i>
<i>RHOI TREFNIADAU ASESU AR WAITH</i>	<i>6</i>
<i>ADOLYGU A DIWYGIO TREFNIADAU ASESU PARHAUS</i>	<i>6</i>
<i>TREFNIADAU AR GYFER ASESU DECHREUOL</i>	<i>7</i>
<i>GWEITHREDU'R TREFNIADAU AR GYFER ASESU DECHREUOL</i>	<i>7</i>
<i>ADOLYGU A DIWYGIO'R TREFNIADAU AR GYFER ASESU DECHREUOL</i>	<i>7</i>
<i>DYLETSWYDD GWEINIDOGION CYMRU I GYHOEDDI TREFNIADAU ASESU</i>	<i>8</i>
<b>5 YMGYNGHORI</b>	<b>8</b>
<b>Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol</b>	<b>11</b>
<b>6. TROSOLWG O'R ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL</b>	<b>11</b>
<i>ASESIADAU EFFAITH</i>	<i>11</i>
<b>7. YR OPSIYNAU</b>	<b>12</b>
<b>8. COSTAU A MANTEISION</b>	<b>13</b>
<b>9. ASESU'R GYSTADLEUAETH</b>	<b>14</b>
<b>10. ADOLYGU AR ÔL GWEITHREDU</b>	<b>14</b>

# RHAN 1 – Memorandwm Esboniadol

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022 (“Rheoliadau 2022”) yn gosod dyletswyddau statudol ar ysgolion a lleoliadau eraill i sicrhau bod y personau a nodir yn Rheoliadau 2022 yn gwneud, gweithredu, adolygu a diwygio trefniadau asesu fel rhan o'u gwaith o lunio a chynllunio cwricwlwm o dan Fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

## 3 Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Pasiwyd Deddf 2021 yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021.

3.2 Mae'r Deddf 2021 yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol i helpu i weithredu'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm seiliedig ar ddibenion newydd i Gymru, sydd yn fod i ddod i rym yn raddol o fis Medi 2022 ymlaen.

3.3 Gwneir Rheoliadau 2022 o dan adrannau 56 a 75 o Ddeddf 2021, i osod dyletswydd ar y personau a nodir yn y Rheoliadau i wneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu ar gyfer Cwricwlwm mabwysiedig, sicredig neu ddiwygiedig o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae adran 56 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch trefniadau asesu.

3.4 Diffinnir “trefniadau asesu” o dan adran 56(2) o Ddeddf 2021 fel:

Trefniadau ar gyfer asesu mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol—

- a) y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion a phlant;
- b) y camau nesaf yn eu cynnydd, ac
- c) yr addysgu a dysgu y mae ei angen i wneud y cynnydd hwnnw.

### Y weithdrefn

3.5 Mae Rheoliadau 2022 yn cael eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae diben Rheoliadau 2022 a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael yn uniongyrchol gysylltiedig â'r hyn a nodir yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021.
- 4.2 Mae Rheoliadau 2022 yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Yn ddarostyngedig i'r weithdrefn hon yn y Senedd, daw Rheoliadau 2022 i rym yn raddol, gan ddechrau ar 1 Medi 2022. Er hyn, efallai y byddai'r Pwyllgor am nodi'r canlynol mewn perthynas â diweddarau canllawiau i ysgolion a lleoliadau.
- 4.3 Mae [Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu](#) a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 28 Ionawr 2020 yn amlinellu prif egwyddorion a diben asesu yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n rhoi cyfeiriad clir ac egwyddorion canllaw i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt ddatblygu eu trefniadau asesu ochr yn ochr â'r gwaith o ddylunio eu cwricwlwm. Mae'r canllawiau hefyd yn ymdrin â'r prosesau allweddol sydd eu hangen i sicrhau cynnydd effeithiol i ddysgwyr, sef:
- sicrhau dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
  - symud ar hyd y continwmm 3 i 16
  - cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr
- 4.4 Mae angen diweddarau'r Canllawiau i adlewyrchu ymrwymadau a wnaed gan Weinidogion Cymru yn ystod hynt Deddf y Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) yn gynharach yn 2021, ynghyd ag adlewyrchu adborth o'r ymgynghoriad a gafwyd yn ystod hydref 2021. Bydd y Canllawiau'n cael eu diweddarau a'u cyhoeddi ar 10 Ionawr 2022 a byddant yn dod yn statudol o dan adran 71 o Ddeddf 2021.
- 4.5 Mae Llywodraeth Cymru yn diweddarau'r Canllawiau yn unol â Rheoliadau 2022 i roi rhagor o amser i ysgolion a lleoliadau i ddefnyddio'r cyngor hwnnw i lywio'r gwaith o wneud eu trefniadau asesu ochr yn ochr â'u gwaith o ddylunio a chynllunio eu cwricwlwm yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.
- 4.6 Mae'r Rheoliadau'n nodi'r manylion ar gyfer asesu cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir, lleoliad addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion neu lle darperir ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol ac eithrio mewn Uned Cyfeirio Disgyblion. Rhoddir ystyr "cwricwlwm perthnasol" yn adran 56(5) o Ddeddf 2021.
- 4.7 Mae Deddf 2021 yn caniatáu i Rheoliadau 2022 mewn perthynas â threfniadau asesu gynnwys: manylion gweithredu trefniadau asesu, gan gynnwys pryd, sut a phwy ddylai eu gwneud a'u gweithredu; y meini prawf y mae rhaid i'r trefniadau eu bodloni; yr angen i werthuso

effeithiolrwydd y trefniadau asesu a sut y dylid gwneud hyn; a phrosesau adolygu a diwygio ar gyfer trefniadau asesu. Mae Rheoliadau 2022 yn gwneud y ddarpariaeth honno.

4.8 Mae Deddf 2021 hefyd yn caniatáu i Reoliadau 2022 ar drefniadau asesu gynnwys gofynion ynghylch darparu gwybodaeth (gan y person perthnasol) ynghylch trefniadau asesu a wneir neu a weithredir. Y bwriad oedd y byddai hyn yn caniatáu i Reoliadau ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi trefniadau asesu i adlewyrchu'r rhai ar gyfer cyhoeddi crynodeb o gwricwlwm. Ar hyn o bryd, er mwyn cyfyngu ar y gofynion gweinyddol a osodir ar ysgolion yn ystod y cam cyflwyno cychwynnol, nid ydym yn bwriadu defnyddio'r ddarpariaeth hon.

4.9 Mae Deddf 2021 yn cynnwys darpariaeth ynghylch gosod gofynion ar ysgolion i gyhoeddi crynodeb o gwricwlwm, ac mae manylion y gofynion hyn yn cael eu hystyried a disgwyliwn i'r rhain gynnwys cyfeiriad at drefniadau asesu ar gyfer blynyddoedd cyntaf y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm.

## Cychwyn

4.10 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol rhwng blynyddoedd academaidd 2022/23 a 2026/27. Mae rheoliad 1 yn darparu ar gyfer cychwyn y trefniadau asesu fesul grwpiau blwyddyn, i adlewyrchu'r ffordd y bwriedir cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

## Asesu parhaus drwy gydol y flwyddyn ysgol

4.11 Diben trefniadau asesu yn y Cwricwlwm i Gymru yw deall a chefnogi cynnydd plentyn neu ddysgwyr drwy gwricwlwm yr ysgol neu'r lleoliad a helpu i bennu eu camau nesaf o ran addysgu a dysgu er mwyn gwneud cynnydd. Bwriedir i'r trefniadau asesu helpu pob dysgwyr i wneud cynnydd drwy helpu ymarferydd i ddeall anghenion dysgwyr unigol fel y gall ddefnyddio'r ddealltwriaeth honno i helpu i gynllunio addysgu a dysgu a'r camau nesaf yng nghynnydd y dysgwyr fel ei fod yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol.

4.12 Er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr yn effeithiol, mae angen ymgorffori asesiadau i arferion dydd i ddydd. Mae asesiadau o dan y Cwricwlwm i Gymru yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Bydd ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth a geir o asesiadau i ystyried sut i deilwra'r addysgu i sicrhau bod plentyn yn gwneud cynnydd, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i lywio'r camau nesaf yn y dysgu.

4.13 Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2022 yn gosod dyletswydd ar bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yr athro neu'r athrawes â gofal, y pwyllgor rheoli ac awdurdod lleol Uned Cyfeirio Disgyblion a'r awdurdod lleol sy'n darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol y tu allan i Uned Cyfeirio Disgyblion, i wneud trefniadau asesu sy'n addas ar gyfer dysgwyr neu blant o wahanol

oedrannau, galluoedd a doniau, sy'n darparu ar gyfer asesu dysgwyr yn barhaus drwy gydol y flwyddyn ysgol, gyda'r bwriad o gefnogi cynnydd dysgwyr.

- 4.14 Mae trefniadau asesu yn rhan annatod o Ddylunio'r Cwricwlwm, gyda gwybodaeth o drefniadau asesu yn cael ei defnyddio i lywio addysgu a dysgu a'r camau nesaf i gefnogi cynnydd dysgwyr. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau asesu a roddir ar waith a'r wybodaeth sy'n deillio o'r rhain yn cefnogi dealltwriaeth o gynnydd o yn y Cwricwlwm, mae Rheoliadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith o gynllunio a gwneud trefniadau asesu ar gyfer cwricwlwm ysgol neu leoliad gael ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith o ddylunio'r Cwricwlwm.
- 4.15 Mae rheoliad 3(6) o Reoliadau 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, sydd â'r ystyr a roddir yn adran 80(1)(a) o Ddeddf 2021, sy'n caniatáu iddynt fodloni gofynion asesu parhaus drwy fabwysiadu'r trefniadau asesu a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 9. Fodd bynnag, nid oes rhaid i ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir fabwysiadu'r cwricwlwm na'r trefniadau asesu a wneir gan un o Weinidogion Cymru ac, mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir sicrhau bod Cwricwlwm mabwysiedig yn bodloni gofynion y Cwricwlwm.
- 4.16 Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr sy'n derbyn addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn cael cymorth i wneud cynnydd ar hyd eu cwricwlwm mabwysiedig, pan fo darparwr yn dewis peidio â mabwysiadu trefniadau asesu Gweinidogion Cymru, rhaid iddynt wneud, gweithredu, adolygu a diwygio eu trefniadau asesu eu hunain. Er mwyn sicrhau bod y trefniadau asesu yn cefnogi cynnydd ac yn llywio addysgu a dysgu, rhaid gwneud y rhain ar yr un pryd â'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm.

#### Rhoi Trefniadau Asesu ar Waith

- 4.17 Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2022 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu'r trefniadau asesu a wneir o dan reoliad 3. Mae'n gosod dyletswydd ar y "person perthnasol" fel y'i diffinnir gan Ddeddf 2021 i weithredu'r trefniadau asesu. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar y cyd ar bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir i weithredu trefniadau asesu.
- 4.18 Ar gyfer lleoliadau eraill, mae'r rhai sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau asesu hefyd yn gyfrifol am eu gweithredu.

#### Adolygu a Diwygio trefniadau asesu parhaus

- 4.19 Yn unol â'r dyletswyddau a osodir ar ysgolion a lleoliadau mewn perthynas â sicrhau bod cwricwlwm mabwysiedig yn cael ei adolygu a'i ddiwygio i sicrhau ei fod yn parhau i fodloni gofynion y Cwricwlwm, mae rheoliad 5 o Reoliadau 2022 yn gosod dyletswyddau ar ysgolion a lleoliadau i adolygu a diwygio trefniadau asesu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i'r Cwricwlwm mabwysiedig. Bwriad y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod trefniadau asesu yn cyd-fynd â'r cwricwlwm ac yn parhau i

gefnogi cynnydd dysgwyr. Mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, perchnogir y dyletswyddau hyn ar y cyd gan y pennaeth a'r corff llywodraethu.

### **Trefniadau ar gyfer Asesu Dechreuol**

4.20 Er mwyn cynllunio a chefnogi plentyn neu ddysgwr yn briodol i wneud cynnydd mewn cwricwlwm, mae'n hanfodol cael dealltwriaeth o'u sefyllfa bresennol o ran eu dysgu. Er mwyn cefnogi hyn a sicrhau'r ddealltwriaeth hon o ddechrau taith dysgwr mewn ysgol neu leoliad, mae rheoliad 6 o Reoliadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person a nodir yn yr adran (pennaeth, darparwr, athro â gofal, pwyllgor rheoli, awdurdod lleol) wneud a gweithredu trefniadau asesu sy'n helpu i greu darlun o alluoedd a doniau'r dysgwr mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol neu'r lleoliad. Y bwriad yw mai'r asesiadau hyn yw'r cam cyntaf tuag at ddatblygu dealltwriaeth o ddysgwr, ei gryfderau, ei feysydd gwella, a lle mae angen mwy o ffocws neu gymorth, a bod yr wybodaeth hon wedyn yn cael ei defnyddio i gynllunio'r camau nesaf ac i deilwra addysgu a dysgu i alluogi cynnydd.

4.21 Er mwyn sicrhau bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i sicrhau bod eu trefniadau ar gyfer asesu dechreuol yn cyd-fynd â'u cwricwlwm, ysgolion a lleoliadau fydd yn gyfrifol am bennu manylion y trefniadau hyn ar gyfer asesu dechreuol. Mae Rheoliadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r asesiadau hyn fod yn addas ar gyfer dysgwyr neu blant o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau a rhaid iddynt gwmpasu sgiliau rhifedd a llythrennedd, a datblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant a dysgwyr.

4.22 Wrth gydnabod bod plant a dysgwyr dechrau mewn ysgolion a lleoliadau ar wahanol adegau ar draws y continwmm 3-16, pa un a ydynt yn dechrau â darpariaeth feithrin a gynhelir neu addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir, yn dechrau mewn ysgol neu leoliad pan fyddant o oedran ysgol gorfodol, neu'n dechrau mewn ysgol neu leoliad ar ddechrau neu yng nghanol blwyddyn academaidd, ac i sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir o'r asesiadau hyn yn cael ei defnyddio i gefnogi cynnydd dysgwyr, mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal asesiadau dechreuol o fewn 6 wythnos i blentyn neu ddysgwr ddechrau mewn ysgol neu leoliad, ac eithrio dysgwyr Blwyddyn 6 sy'n symud i Flwyddyn 7. Ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, dylid trosglwyddo gwybodaeth i gefnogi eu cynnydd ar hyd y continwmm dysgu fel rhan o drefniadau pontio a roddir ar waith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

### **Gweithredu'r trefniadau ar gyfer asesu dechreuol**

4.23 Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2022 yn gosod dyletswydd ar y "person perthnasol" i weithredu'r trefniadau ar gyfer asesu dechreuol.

### **Adolygu a diwygio'r trefniadau ar gyfer asesu dechreuol**

4.24 Mae rheoliad 8 o Reoliadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau a roddir ar waith ar gyfer rhoi asesiadau dechreuol i ddysgwyr gael eu hadolygu, a'u diwygio os oes angen, gan y "person perthnasol". Diben hyn yw sicrhau bod y trefniadau ar gyfer asesu dechreuol yn caniatáu i ymarferwyr ddatblygu

dealltwriaeth o'r dysgwr mewn perthynas â'r cwricwlwm mabwysiedig a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi trefniadau asesu

- 4.25 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gymwys i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed mewn darpariaeth feithrin a gynhelir neu ddarpariaeth feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. O dan adran 13 o Ddeddf 2021, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cwricwlwm addas sy'n darparu ar gyfer addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir. Rhoddwyd y dyletswyddau hyn ar Weinidogion Cymru i gydnabod y gallai darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wynebu anawsterau wrth ddod o hyd i gapasiti i gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. I gydnabod ymhellach y pryderon hyn ynghylch capasiti ac i gydnabod na fyddai'n rhesymol gofyn i leoliad addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir wneud trefniadau asesu ar gyfer Cwricwlwm nad ydynt wedi'i gynllunio, mae rheoliad 9 o Reoliadau 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau asesu ar gyfer y Cwricwlwm y maent yn ei gyhoeddi o dan adran 13 o Ddeddf 2021.
- 4.26 Mae'r rheoliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r trefniadau asesu a'u diwygio os nad ydynt bellach yn bodloni'r gofynion asesu neu os yw'n briodol gwneud hynny.
- 4.27 Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau asesu ar gyfer y cwricwlwm cyhoeddedig gael eu gwneud erbyn 1 Medi 2023. Bwriedir i drefniadau asesu drafft, a ddatblygir drwy drefniant cyd-awduro, fod ar gael o fis Medi 2021 i ganiatáu i ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â threfniadau asesu. Ni fydd y trefniadau asesu hyn yn cael eu cwblhau tan fis Medi 2022, er mwyn caniatáu ar gyfer cyfnod o ymgynghori a threialu.
- 4.28 Mae'r gofynion a osodir ar Weinidogion Cymru i wneud, adolygu a diwygio trefniadau asesu hefyd yn estyn i'r trefniadau ar gyfer asesu dechreuol ar gyfer plentyn sy'n dechrau mewn lleoliad. Amlinellir diben ac effaith arfaethedig asesu dysgwr wrth iddo ddechrau ym mharagraffau 4.12-4.14 uchod.

## 5 Ymgynghori

- 5.1 Datblygwyd y cynigion deddfwriaethol ar y cyd ag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Asesu, grŵp arbenigol gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, academyddion, a chynrychiolwyr o'r haen ganol gan gynnwys Partneriaethau a Chonsortia Rhanbarthol ac Estyn. Roedd cyd-awduro'r polisi yn caniatáu inni ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y grŵp i ystyried effaith weithredol a goblygiadau cysylltiedig y cynigion polisi.
- 5.2 Mae Grŵp Cynghori ar Asesu wedi bod yn elfen allweddol wrth ddatblygu polisi asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru, wrth gyd-awduro'r Canllawiau Cefnogi Cynnydd Dysgwyr, yn ogystal â'r polisi manylach ar gyfer Rheoliadau 2022.



- 5.3 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 8 wythnos o hyd rhwng 6 Medi a 31 Hydref 2021 ar y cynigion ar gyfer trefniadau asesu yn y Cwricwlwm i Gymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol yn cynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.
- 5.4 Roedd y strategaeth ymgysylltu i gefnogi'r ymgynghoriad yn cynnwys gwaith gyda Wavehill i ddarparu grwpiau ffocws penodol. Amcan cyffredinol y grwpiau ffocws oedd casglu ystod o wybodaeth ychwanegol i gefnogi ein dealltwriaeth o safbwyntiau grwpiau penodol ar y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau manylach ar gynigion yn y ddogfen ymgynghori, yn ogystal â chwestiynau penodol yn ymwneud â grwpiau rhanddeiliaid unigol a amlinellir yn y gofynion. Gofynnodd y grwpiau ffocws am safbwyntiau plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, uwch-arweinwyr, llywodraethwyr a chynrychiolwyr o leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- 5.5 Daeth 78 o ymatebion i law. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn gyflwyniadau manwl. Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar-lein yma: [Trefniadau Asesu: is-ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021.](#)
- 5.6 Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn ymwneud yn bennaf ag adborth ehangach, a oedd yn estyn y tu hwnt i gynnwys Rheoliadau 2022. Fodd bynnag, helpodd yr adborth a gafwyd i ddiwygio'r drafft o Reoliadau 2022, er enghraifft i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd ynghylch natur grynodol bosibl asesiadau dechreuol, fel a gafwyd ar ddeall yn sgil y cynigion ymgynghori. Er mwyn sicrhau mwy o eglurder o ran bod yr asesiadau yn canolbwyntio ar lefel cwricwlwm ysgol/lleoliad, ac ar ystod o asesiadau yn defnyddio gwahanol dechnegau, rydym wedi addasu'r iaith i "Trefniadau ar gyfer Asesu Dechreuol" ac wedi rhoi mwy o eglurder o ran ffocws yr asesiadau hyn yn y Canllawiau Asesu.
- 5.7 Cafodd yr adborth ehangach, a oedd yn estyn y tu hwnt i gynnwys Rheoliadau 2022, ei gasglu ac mae eisoes yn llywio'r gwaith o ddatblygu polisi, rhaglenni a chanllawiau. Ceir isod grynodeb o'r prif themâu a godwyd:
- Nodi'r angen am ddeunydd ategol ychwanegol ac arferion da sy'n enghreifftio'r broses ymarferol o weithredu trefniadau asesu;
  - Ymholiadau ynghylch sut y caiff cydraddoldeb o ran cynnydd ei gyflwyno'n genedlaethol gyda threfniadau cwricwlwm ac asesu a gynlluniwyd yn lleol;
  - Galw am fwy o gefnogaeth i ddeall sut olwg fydd ar gynnydd o dan y Cwricwlwm i Gymru ar ôl dileu disgrifyddion lefelau y Cyfnod Sylfaen a'r Cyfnod Allweddol,
  - Yr angen am ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gefnogi ymarferwyr ac arweinwyr i allu gwneud, gweithredu ac adolygu trefniadau asesu sy'n addas i'r diben;

- Cydnabod y byddai angen ymrwymiad amser sylweddol i gyflawni'r cynigion ehangach a fyddai'n cael effaith ariannol gyfatebol i ryddhau ymarferwyr o'u hymrwymiaadau addysgu;
- Angen am hyder yn y system y bydd treialu a diwygio dulliau o ymdrin â threfniadau cwricwlwm ac asesu yn cael eu cefnogi;
- Galw am well dealltwriaeth o rôl Estyn a sut y bydd trefniadau gwerthuso a gwella yn gweithredu pan na fydd asesu bellach yn cynhyrchu data er mwyn adrodd.

5.7 Fel y nodwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei ddatganiad llafar ar 6 Gorffennaf 2021, mae gwaith ar y meysydd a gwmpesir gan yr adborth ehangach eisoes ar y gweill ar gyfer mis Medi 2021 ymlaen. Er enghraifft, mae adborth sy'n tynnu sylw at asesu a chynnydd wrth ddysgu fel meysydd cymorth allweddol, yn llywio'r gwaith o ddatblygu'r prosiect cynnydd Cymru gyfan, blaenoriaethau'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm o fis Medi ymlaen, a rhagor o ddiweddariadau i'r canllawiau ar ddiwedd 2021.

## Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

### 6. Trosolwg o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae'r trefniadau asesu'n ffurfio rhan annatod o Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru sydd, ynghyd â dyletswyddau a gofynion eraill a roddir ar ysgolion a lleoliadau o dan Ddeddf 2021, yn rhoi eglurder a disgwyliadau cenedlaethol o ran y sut mae rhaid/sut y gellir datblygu cwricwlwm.
- 6.2 Fel y cydnabyddir yn yr adran [Cynllunio eich Cwricwlwm](#) o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, mae'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm ac asesu o reidrwydd yn broses holistaidd. Mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth o ystyriaethau, sy'n cynnwys y trefniadau asesu y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau 2022, ynghyd â dyletswyddau a gofynion mandadol eraill o dan Ddeddf 2021, canllawiau cwricwlwm ehangach, ynghyd ag amgylchiadau lleol. O ganlyniad, nid ystyrir bod dadansoddiadau a chostau penodol ac ar wahân mewn perthynas ag effeithiau rhanedig elfennau penodol o'r Fframwaith yn ymarferol; neu, pe rhoddir cynnig ar hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau dadleuol o ystyried yr amrywiaeth eang o amrywiadau a chafeatau a fyddai'n gysylltiedig. Yn gryno, ni fyddai'n realistig ceisio dadansoddi, asesu ac adrodd ar effeithiau'r gofynion penodol a nodir ym mhroses ehangach gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.
- 6.3 Lluniwyd gwybodaeth fanwl am y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â phroses asesu cwricwlwm ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Nodir hyn yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021 a ddiweddarwyd yn ddiweddar ac s basiwyd yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021 ac a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 202. Yn ystod hynt Deddf 2021 ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddiweddarau'r Senedd ar y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf 2021 a diwygio'r cwricwlwm. Mae'r diweddariad hwn yn cael ei ddarparu ym mis Ionawr 2022 fel rhan o waith craffu ar y gyllideb.

### Asesiadau Effaith

- 6.4 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddi. O ganlyniad, mae eisoes amrywiaeth o asesiadau effaith sydd wedi'u cyhoeddi ac, mewn rhai achosion, sydd wedi'u diweddarau'n ddiweddar, yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y [Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.

- Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl am y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.3, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ymhellach erbyn diwedd 2021.
- Cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig](#) o'r modd y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu ym mis Gorffennaf 2020.
- Cyhoeddwyd [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) ym mis Gorffennaf 2020.
- Cyhoeddwyd [Canllawiau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru 2022: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) ym mis Gorffennaf 2020.
- Cyhoeddwyd [Asesiad Effaith Integredig ar Gynigion ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) ym mis Ebrill 2020.
- Cyhoeddwyd y ffurflen [Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#) ym mis Ebrill 2018.

## 7. Yr opsiynau

- 7.1 Ystyriwyd opsiynau ynghylch y dull o drin trefniadau asesu yn y Cwricwlwm i Gymru (ac fe'u trafodwyd gan yr Aelodau yn y Senedd) yn ystod hynt Deddf 2021 rhwng 2020 a 2021. O ganlyniad, cwmpesir hyn yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddf 2021.
- 7.2 I grynhoi, ystyriwyd bod rhaid gwneud trefniadau asesu i gefnogi cynnydd dysgwyr yn y Cwricwlwm i Gymru ac y dylid nodi'r gofynion manwl ar gyfer y rhain yn Rheoliadau 2022.
- 7.3 Ystyriwyd opsiynau ynghylch a ddylai manylion y rhain gael eu hamlinellu mewn canllawiau, eu gosod ar wyneb Deddf 2021 neu eu nodi yn Rheoliadau 2022. Daethpwyd i'r casgliad bod y canllawiau'n fwy addas i fanylion yr egwyddorion a'r dull asesu yn y Cwricwlwm i Gymru. Er hyn, oherwydd natur gyfannol asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, dylai bod gan ofynion manwl ar gyfer trefniadau asesu statws statudol. O ystyried natur fanwl y gofynion a'r dull asesu newydd, ystyriwyd na fyddai rhoi'r manylion ar wyneb Deddf 2021 yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i ymgymryd â newidiadau posibl yn y gofynion ar weithredu ac i ymateb iddynt. Daethpwyd i'r casgliad felly y dylid nodi'r gofynion yn Rheoliadau 2022.

- 7.4 Mae'r Rheoliadau'n rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i ysgolion a lleoliadau ynghylch trefniadau asesu, gan ddarparu rhywfaint o gysondeb o ran deall a chefnogi cynnydd dysgwyr yn y Cwricwlwm i Gymru.
- 7.5 Wrth graffu ar Ddeddf 2021 pan oedd yn Fil, arweiniodd trafodaeth ar y Rheoliadau ar gyfer trefniadau asesu at basio gwelliant, gan newid y gofyniad i ganiatáu i Reoliadau ar drefniadau asesu gael eu gwneud, i ofyniad i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Reoliadau ynghylch trefniadau asesu gael eu gwneud.
- 7.6 O ganlyniad, mae adran 56 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau 2022.
- 7.7 Ymgynghorwyd ar yr egwyddorion a'r dull a fwriadwyd, ynghyd â'r cynigion deddfwriaethol i asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, ym mis Ebrill 2019. Arweiniodd hyn at ddiwygiadau sylweddol i'r canllawiau Cefnogi Cynnydd Dysgwyr – Canllawiau Asesu a gyhoeddwyd ar ffurf drafft ym mis Ionawr 2020.
- 7.8 Mae'r Gweinidog wedi ymgynghori ar y cynigion ar gyfer trefniadau asesu a bennir yn Rheoliadau 2022 ac amlinellir crynodeb o'r adborth i'r ymgynghoriad yn y Memorandwm Esboniadol uchod.

## **8. Costau a manteision**

- 8.1 Fel y nodir yn adran 6 uchod, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad ar wahân o gostau a manteision yn benodol i elfennau Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a nodir yn Rheoliadau 2022 ar y sail yr ystyrir nad yw dadansoddiad o'r fath yn realistig. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol i'r system addysg yn sgil y Rheoliadau hyn ar ben yr hyn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3.
- 8.2 Heb Reoliadau 2022 ni fyddai gan ysgolion a lleoliadau unrhyw rwymedigaeth statudol i wneud na gweithredu trefniadau asesu i gefnogi eu Cwricwlwm. Heb ddyletswyddau statudol, gallai ysgolion a lleoliadau ddewis peidio â gwneud neu weithredu trefniadau asesu gan arwain at ddiffyg cefnogaeth a dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr mewn cwricwlwm, ynghyd â bwch cyfatebol mewn gwybodaeth hanfodol sydd ei hangen i lywio hunanarfarnu a gwella a chodi cyrhaeddiad dysgwyr.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

### 9.1 Prawf hidlo'r gystadleuaeth:

Cwestiwn	Ateb
<b>C1:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy na 10%?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliadau newydd, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o'r farchnad sy'n fwy nag 20%?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arni/arnynt gan y Rheoliadau newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad sy'n o leiaf 50%?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r Rheoliadau yn effeithio llawer mwy ar rai cwmnïau o gymharu ag eraill?	Na fyddant
<b>C5:</b> A yw'r Rheoliadau yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r Rheoliadau yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd, nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C7:</b> A fyddai'r Rheoliadau yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A yw'r sector wedi'i nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydy
<b>C9:</b> A fyddai'r Rheoliadau yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

9.1 Ni fydd y darpariaethau yn Rheoliadau 2022 yn effeithio ar fusnesau, nac elusennau a/neu'r sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion o ran cystadleuaeth. Ni chymhwyswyd y prawf hidlo'r gystadleuaeth.

9.2 Ni ddisgwylir i'r darpariaethau yn Rheoliadau 2022 gael unrhyw effaith ar gystadleuaeth na gosod unrhyw gyfyngiadau ar gyflenwyr newydd na chyflenwyr presennol. Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3, disgwylir mai cyrff cyhoeddus, sydd eisoes yn talu'r costau hyn, fydd yn gorfod talu'r mwyafrif o'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

9.3 Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael unrhyw effaith negyddol ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd y gwaith o weithredu'r Rheoliadau mewn ysgolion a lleoliadau yn mynd rhagddo rhwng mis Medi 2022 a blwyddyn academaidd 2026/27 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno mewn ysgolion a lleoliadau. Bydd adolygiad o'r broses o'u gweithredu yn rhan o'r adolygiad gweithredu

ehangach a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 6.3 uchod.

- 10.2 Nid yw'r rhaglen ehangach o werthuso diwygiadau i'r cwricwlwm (gweler: [Cwricwlwm i Gymru: Cynllun gweithredu- Hwb \(llyw.cymru\)](#)) wedi'i gynllunio fel asesiad ôl-weithredol unigol o effeithiau. Yn hytrach, mae'n broses ddysgu barhaus, gyda gwerthuso effeithiau yn rhan bwysig ohoni. Cynhelir gwerthusiad ffurfiannol yn ystod blynyddoedd cynnar y broses weithredu er mwyn deall llwyddiannau a heriau cynnar, a pha un a yw diwygiadau i'r cwricwlwm yn cael y canlyniadau y bwriadwyd iddynt eu cael. Bydd hyn yn sicrhau y gellir gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i bolisiau er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd. Bydd gwerthusiad o effaith yn ystyried canlyniadau diwygiadau wrth iddynt gael effaith ac ar ôl cyfnod digonol, i adael i ganlyniadau tymor hirach ddod i'r amlwg. Fel rhan o'r broses hon, caiff gwaith ei flaenoriaethu drwy'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu cwricwlwm ac asesu i gefnogi gwaith ysgolion a lleoliadau ar gynnydd dysgu ac i feithrin dealltwriaeth ar draws y system ac adolygu'r egwyddorion cysylltiedig dros amser.